

Maes blaenoriaeth	Parc Tirweddau'r Cymoedd – Fy Nghymuned Leol
Arweinydd polisi yn nhîm y Tasglu	Phil Lewis
Cam gweithredu – ar sail y camau a nodwyd yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol"	Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu Parc Tirweddau'r Cymoedd. Bydd hyn yn helpu cymunedau lleol i weithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector i ddathlu adnoddau naturiol a threftadaeth yr ardal, a gwneud y gorau ohonynt.

Cerrig milltir	Cynnydd
Rhagfyr 2017 - Sicrhau arian Ewropeaidd er mwyn creu tîm cydlynu bach i ddatblygu a chyflenwi'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen i ddarparu dull cyson o ddatblygu'r parc.	Mae'n cymryd tua 9 mis i sicrhau cyllid drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae tîm y tasglu yn gweithio gyda chydweithwyr Datblygu Gwledig i gytuno ar y ffordd fwyaf priodol o fynd ati i ymgeisio am gyllid. Mae risg yn gysylltiedig â hyn a ddylai ddod i'r amlwg erbyn diwedd Mehefin. Yn y cyfamser, mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi ei sicrhau er mwyn gofalu bod y tîm cymorth yn ei le o fis Mai 2018 tan fis Chwefror 2019. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r prosiect cychwynnol. Ymunodd David Llewellyn â'r tîm ar 21 Mai 2018 i arwain y prosiect hwn. Mae gwaith recriwtio yn cael ei wneud i ddwy rôl arall.
Rhagfyr 2017 – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn cytuno ar y cymorth ar gyfer Parc Tirweddau'r Cymoedd	Mae Jocelyn Davies yn arwain ar y ffrwd waith gyda chefnogaeth gan grŵp goruchwylio sy'n cynnwys uwchswyddogion o Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Ddiwedd Mawrth 2018, bu Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a grŵp o swyddogion ar ymweliad â pharciau tirweddau a pharciau cenedlaethol yn Stuttgart (yr Almaen) a Genk (Gwlad Belg). Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r cynigion yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd ar yr ymweliad. Cynhaliwyd tri gweithdy gyda rhanddeiliaid yn ystod mis Ebrill i adolygu'r cynigion o ran Parc Tirweddau'r Cymoedd ac i ystyried sut y gellid gweithredu'r rhain yng nghanol y Cymoedd, y Cymoedd Gorllewinol a'r Cymoedd Dwyreiniol. Mae Phil Lewis wedi cyfarfod â Phrif Weithredwyr neu Ddirprwy Brif Weithredwyr yr holl Awdurdodau Lleol yn y Cymoedd i rannu'r cynigion a sicrhau cefnogaeth i'r cynlluniau ar lefel strategol. Mae pob awdurdod lleol wedi neilltuo uwchswyddog i gydweithio â'r tîm ar y cynlluniau cyflawni. Cynhaliwyd y cyntaf mewn cyfres o weithdai, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, yn Lido Pontypridd ar 6 Mehefin, ac mae sesiwn ddilynol wedi ei chynllunio ar gyfer Gorffennaf 17. Mae'r cynnig drafft i'w weld yn atodiad A. Mae'r cynllun sy'n ymdrin â'r cam cychwynnol yn Atodiad B.

Ionawr 2018 – Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i fapio'r tir cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer datblygiadau cymunedol ledled y Cymoedd a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn trwy rwydweithiau cymunedol.	Mae cyfres o fapiau sy'n amlinellu'r math o dir, y defnydd tir a'r asedau wedi cael ei datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Y mapiau hyn oedd sail sesiwn weithdy a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2018 yr aeth oddeutu 50 o brif randdeiliaid iddi. Canlyniad y sesiwn oedd cydnabod yr asedau sydd ar gael i ni a'r cyfleoedd cysylltiedig. Yn bwysig iawn, tynnwyd sylw hefyd at yr hyn sydd eisoes yn ei le ac sydd angen ei gysylltu'n effeithiol a'i hybu mewn modd cydlynol er mwyn cyflwyno manteision sylweddol i gymunedau'r Cymoedd ac ymwelwyr. Bydd gwaith pellach o ran mapio, dylunio a chynllunio yn digwydd wrth gyflwyno'r Parc Tirweddau.
Ionawr 2018 – Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i nodi'r dulliau o oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â mynediad i dir a pherchnogaeth tir.	Yn dal i fynd rhagddo - Mae mynediad i dir a pherchnogaeth yn un o nifer o faterion y bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy gyflwyno'r Parc Tirweddau. Hyd yn hyn, nid oes llawer o gynnydd wedi ei wneud o ran y gwaith hwn, ond mae hynny'n adlewyrchu'r angen i ddiffinio'n well y ffordd y mae'r Parc Tirweddau'n mynd i weithredu. Mae gwaith mapio cychwynnol ynghylch perchnogaeth mewn rhai ardaloedd o'r Cymoedd bellach wedi ei wneud (Mehefin 2018) a fydd yn help i lunio cynlluniau peilot Project Skyline yr ydym yn eu cefnogi yn Thema 3 o'r cynlluniau ar gyfer y Parc Tirweddau.
Ebrill 2018 - Nodi a gweithio gyda phrosiectau cyfredol er mwyn darparu rôl gydlynol i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth Parc Tirweddau'r Cymoedd.	Yn dal i fynd rhagddo - Trwy weithdai ym mis Medi ac ym mis Ionawr, mae'r asedau sydd eisoes yn eu lle wedi eu canfod. Er hynny, dylai'r garreg filltir hon fod yn adlewyrchiad o'r angen i gytuno ar gynnydd a dull gweithredu, sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y cynnydd yn manylu ar y model gweithredu ar gyfer cyflwyno'r Parc Tirweddau yn y dyfodol. Bydd yn amlinellu beth y gellir ei gyflawni drwy werthuso astudiaethau achos a bydd yn cyflwyno ffordd ymlaen ar gyfer y gwaith, sydd wedi ei alinio â'r gwaith cynllunio sy'n cael ei wneud trwy Fyrdau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol a chyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r cynlluniau ardal.
Risgiau	
Er mwyn newid canfyddiad pobl o'r Cymoedd a gwireddu'r weledigaeth i 'wneud y Cymoedd yn lle y mae pobl yn falch o'i ystyried yn gartref; yn lle y mae busnesau yn dewis buddsoddi a gweithredu', mae'n rhaid i Barc Tirweddau'r Cymoedd barhau i gael ei ddatblygu gyda'r nod o greu safleoedd sy'n gydgysylltiedig, ac yn gwneud datganiad ar draws y cymoedd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen cydweithio â Llywodraeth Cymru, a chydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill, gan gynnal trafodaethau effeithiol â'r gymuned. Mae cyllid tymor byr yn ei le ar gyfer cael tîm cymorth i ddechrau'r prosiect drwy gydweithio â swyddogion yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y gweithredu tymor hirach yn ddibynnol ar gael cynnydd llwyddiannus i'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mwy na thebyg bydd y broses o wneud cynnydd yn cymryd 9 mis ac ni chytunwyd ar y dull gweithredu hwn eto. Mae diffinio ffin a dynodiad y Parc Tirweddau yn hanfodol i'w hirhoedledd er mwyn iddo sicrhau'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a fwriedir. Er y bydd hyn yn gofyn am lywodraethu a goruchwyllo, mae'n hanfodol ei fod yn osgoi cael ei yrru'n ormodol gan brosesau a	

chyfyngiadau. Mae papur opsiynau ar ddynodi tir yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gael ei ystyried gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Adroddwyd gan:

Phil Lewis – 18 Mehefin 2018

Atodiad A



Valley's Landscape
Park Proposal - Englis

Atodiad B



Start-up project
outline - June 2018.d